



**adopting
together**

Step by Step

**mabwysiadu
gyda'n gilydd**

Cam wrth Gam



**Allech chi fod yn deulu am oes i blentyn sy'n aros i
gael ei fabwysiadu?**

**Mae plant yn aros am deulu am y cyfnod hiraf
os ydyn nhw**

- yn frodyr a chworydd sydd angen aros gyda'i gilydd
 - dros 4 mlwydd oed
- ag anghenion ychwanegol neu ansicrwydd ynghylch eu datblygiad
 - yn blant o gefndir BAME

Beth yw Mabwysiadu Gyda'n Gilydd

Mae Mabwysiadu Gyda'n Gilydd yn wasanaeth mabwysiadu cyffrous sy'n canolbwyntio ar y plentyn, ac sy'n dwyn yr Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol (VAA) ynghyd yng Nghymru. Fe'i arweinir gan Gymdeithas Plant Dewi Sant gyda'r Gymdeithas a Barnardo's Cymru yn recriwtio ac yn cefnogi teuluoedd ar gyfer plant a allai fod yn aros am amser hir am eu teulu am oes. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd hefyd.

Mae ein gwasanaeth arloesol yn darparu pedair cydran allweddol:

- Recriwtio sy'n benodol i blant a 'Digwyddiadau Proffilio Plentyn' dan arweiniad mabwysiadwyr lle mae mabwysiadwyr yn cyfarfod gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol i ddysgu mwy am y plant sydd â phroffil
- Cyfarfod 'Tîm ar gyfer y Plentyn' dan arweiniad Seicolegydd Clinigol i helpu mabwysiadwyr i ddeall anghenion eu plant yn well
- 'Pontio Therapiwtig' dan oruchwyliaeth glinigol gyda Gweithiwr Cymdeithasol arbenigol pwrpasol yn defnyddio technegau yn seiliedig ar chwarae
- Cyfarfodydd ar ôl Lleoli gyda Seicolegydd Clinigol i gefnogi mabwysiadwyr a phlant yn ystod eu blwyddyn gyntaf gyda'i gilydd.

Cymorth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd

O'r diwrnod yr ydych chi'n cysylltu, hyd at y diwrnod y byddwch yn dod yn deulu ac am gyn hired ag y byddwch chi ei angen, byddwn yn rhoi cymorth i chi. Mae dod yn rhieni mabwysiadol yn ddewis gwerth chweil, ond weithiau gallai fod mor galed ag y mae'n wych. Mae bod angen cymorth yn gwbl arferol wrth i chi ganfod eich ffordd drwy gamau bywyd eich plentyn a byddwn yn cerdded gyda chi ar eich taith i fabwysiadu.

Mae'r holl deuluoedd sy'n mabwysiadu yn cael cymorth parhaus; fodd bynnag, drwy brosiect Mabwysiadu Gyda'n Gilydd byddwch yn cael cynnig pecyn penodol o gefnogaeth therapiwtig sy'n cydnabod effaith taith y plentyn ac sydd wedi'i deilwra i'ch anghenion chi ac anghenion y plentyn. Mae ein model yn canolbwyntio ar atgyfnerthu eich perthynas gyda'ch plentyn wrth iddynt symud i mewn gyda'ch teulu ac mae'n cael ei gynnig cyn gynted â phosibl wrth i'ch perthynas dyfu a datblygu. Gwyddom y bydd y gwaith cynnar hwn yn helpu i osod y sylfaen ar gyfer perthynas gadarnhaol gydol oes.

Mae cymorth yn canolbwyntio ar fframwaith therapiwtig sy'n ceisio deall anghenion eich plentyn, eich cryfderau o ran rhianta, strategaethau i'ch galluogi i rianta eich plentyn yn y ffordd orau a'r ffyrdd y gellir cefnogi hyn yn llawn.



Pecyn Cymorth

- Cyfarfod 'Tîm ar gyfer y Plentyn' dan arweiniad Seicolegydd Clinigol i nodi ac ystyried anghenion eich plentyn a sut y byddwn yn eich cefnogi orau i'w rhianta.
- Gwaith pontio therapiwtig wedi'i deilwra - cyn, yn ystod ac ar ôl cyflwyniadau i helpu eich plentyn i symud o'u teulu maeth i'ch teulu chi ac i osod y sylfeini ar gyfer eich perthynas gydol oes.
- Cefnogaeth o fabwysiadwr profiadol gyda Adoption UK Cymru
- Cefnogaeth broffesiynol gan weithiwr cymdeithasol penodol am gyn hired ag y byddwch chi ei angen.
- Mynediad at amrywiaeth o raglenni hyfforddi arbenigol, manwl.
- Cefnogaeth cymheiriaid gan fabwysiadwyr profiadol a fydd yn cerdded ochr yn ochr â chi yn cynnig cefnogaeth ac arweiniad.
- Grwpiau cefnogi gyda chyfleusterau meithrinfa lle byddwch yn cyfarfod mabwysiadwyr eraill a lle bydd eich plant yn cael hwyl! Yn ogystal â Diwrnodau Teulu yn ystod yr Haf a chynnod y Nadolig.

Mae plant fel hyn yn aros am deulu



Mae **Charlotte** yn 4 mlwydd oed. Ei hoff ddiddordeb yw canu gyda 'Frozen'. Mae hi'n ferch fach chwifrydig, chwareus, sy'n gwenu drwy'r amser. Ar hyn o bryd mae Charlotte ar ei hôl hi mewn nifer o feysydd datblygu o tua 18 mis. Fe wnaeth Charlotte weld llawer o drais domestig a cham-ddefnyddio sylweddau ac mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch ei datblygiad. Byddai Charlotte yn hoffi bod yn athrawes pan mae'n tyfu!

Mae **Jacob a Thomas** yn frodyr 6 a 4 mlwydd oed sydd angen eu lleoli gyda'i gilydd. Byddai eu diwrnod delfrydol yn cael ei dreulio ar y traeth ac maen nhw wrth eu boddau yn yr awyr agored! Fe wnaethant brofi esgeulustod sylweddol ac roedd yn rhaid i Jacob wneud llawer o'r gwaith o ofalu am ei frawd bach. Roedd rhieni biolegol y brodyr yn dioddef o ieched meddwl gwael. Ar hyn o bryd mae'r ddau fachgen yn cyflawni eu cerrig milltir. Byddai Jacob a Thomas wrth eu boddau yn byw gyda theulu oes lle gallant gael ystafell yr un.



Mae **Mia** yn 6 mlwydd oed ac o dreftadaeth BAME. Mae hi wrth ei bodd gyda gymnasteg! Mae Mia wedi cael 2 gartref maeth ers cael ei thynnu oddi wrth ei theulu biolegol pan oedd hi'n 4 mlwydd oed. Roedd Mam fiolegol Mia yn byw bywyd anhrefnus ac yn ymwneud yn aml â phobl oedd yn hysbys i'r awdurdodau. Ar hyn o bryd mae Mia yn mynychu therapi chwarae a byddai'n ymateb yn dda i fodel therapiwtig Mabwysiadu Gyda'n Gilydd. Mae gan Mia dri hanner brawd/chwaer sydd hefyd yn aros i gael eu mabwysiadu. Byddai Mia yn hoffi bod gyda theulu oes a allai feithrin ei chariad tuag at gymnasteg ac sy'n gallu hyrwyddo ei threftadaeth yn gadarnhaol.

Creu teuluoedd

Rydym yn chwilio am bobl sydd am greu eu teuluoedd gyda'r plant hyn mewn cof. Bydd angen i chi fod amyneddgar, yn gariadus, yn chwareus ac yn garedig. Byddwch angen lle yn eich bywydau, yn ogystal â phobl o'ch cwrdd i rannu'r pleserau a'r heriau gyda nhw. Byddwn yn cerdded ochr yn ochr â chi ac yn eich helpu i ddeall beth mae'r plant hyn ei angen a byddwn yn sicrhau eich bod yn cael y cymorth cywir ar yr adeg iawn.



Cydnabyddiaeth Genedlaethol ar gyfer Mabwysiadu Gyda'n Gilydd

Mae Mabwysiadu Gyda'n Gilydd yn unigryw ar draws y DU, mae'n dwyn arfer da ynghyd mewn un gwasanaeth di-dor. Mae'n wasanaeth therapiwtig sy'n ymgorffori pedwar cydran arbenigol mewn un man, ac yn gallu cynnig yr un seicolegydd clinigol i gefnogi eich teulu drwy gydol eich taith.

Mae'r gwasanaeth wedi ennill cydnabyddiaeth genedlaethol am ei fodel arloesol yn seiliedig ar anghenion ac am arloesi o ran cydweithredu. Fe wnaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd ennill gwobr fawreddog 'Gwobr Arloesedd' ICW, a derbyn statws Canmoliaeth Uchel 1 yng nghategori budd Cymdeithasol a Chymunedol yng ngwobrau Go Wales 2018



Os hoffech ddarganfod mwy

Ewch i wefan Cymdeithas Plant Dewi Sant: www.adoptionwales.org

Ffoniwch: 029 2066 7007

e-bost: info@stdavidscs.org